Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Bryn Deva
# Linden Avenue
# Cei Connah
# Sir y Fflint
# CH5 4SN

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sirol Bryn Deva yng Nghei Connah yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Daw’r rhan fwyaf o ddisgyblion o’r ardal gyfagos. Mae 273 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 30 disgybl sy’n mynychu’r feithrinfa yn rhan-amser. Mae deg dosbarth, gan gynnwys naw dosbarth sy’n rhai oedran cymysg.

Mae llawer o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae rhai disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae Saesneg yn newydd i ryw 15% o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o deuluoedd sy’n siarad Cymraeg. Mae’r ysgol wedi nodi bod gan ryw 34% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r ffigur hwn uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd (25%). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 26% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Cafwyd pedwar gwaharddiad cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, sef 2014 i 2015.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o’r ysgol ym Mawrth 2013. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn Nhachwedd 2013.

Mae’r gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Bryn Deva yn 2015-2016 yn golygu mai’r gyllideb yw £3,086 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £4,838 a’r isafswm yw £2,809. Mae Ysgol Gynradd Sirol Bryn Deva yn safle 51 o’r 67 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda, ac mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n arbennig o dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- mae disgyblion ag anghenion ychwanegol, ac yn benodol, y rheiny sy'n manteisio ar y ddarpariaeth anogaeth, yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn unol â'u targedau personol
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau llythrennedd a rhifedd da ac yn defnyddio'r medrau hyn yn dda mewn pynciau eraill
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos lefelau uchel o barch, gofal a phryder am bobl eraill
- mae gan ddisgyblion lais cryf yn y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg, ac maent yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr yn rheolaidd at fywyd yr ysgol
- mae athrawon a staff cymorth yn darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion
- mae'r ysgol yn darparu lefelau eithriadol o uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion sy'n cael effaith sylweddol ar eu cyflawniad a'u lles
- mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol ac yn cefnogi addysgu a dysgu yn dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol, sy'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael yr un cyfle i elwa ar brofiadau dysgu o ansawdd da sy'n gwella eu cyfleoedd mewn bywyd
- mae'r pennaeth yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus, ac mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn ei chefnogi'n dda
- mae prosesau hunanarfarnu yn gadarn a sefydledig ac yn galluogi arweinwyr yr ysgol i ganolbwyntio'n glir ar ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu sy'n ysgogi gwelliannau yn safonau a lles disgyblion
- mae pob aelod o staff yn glir ynglŷn â'u rolau, yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau gwella'r ysgol
- ceir partneriaethau hynod effeithiol gyda rhieni a rhanddeiliaid eraill sy'n cael effaith nodedig ar les disgyblion ac yn cyfrannu'n gryf at godi eu safonau cyflawniad

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella perfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn ysgrifennu

A3 Parhau i wella presenoldeb

A4 Datblygu gallu'r corff llywodraethol ymhellach i herio'r ysgol yn effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, sy'n disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llawer o ddisgyblion islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafaredd ac, erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfathrebu'n effeithiol ag oedolion ac â'i gilydd. Maent yn ymateb yn hyderus i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Mae llawer ohonynt yn awyddus i siarad am eu gwaith ac mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa aeddfed wrth drafod beth maent yn mynd i'w ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar fedrau llafaredd datblygedig ac yn gwrando'n dda iawn. Maent yn talu sylw i'w hathrawon ac yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd wrth weithio mewn parau a grwpiau bach, er enghraifft wrth drafod ymchwiliad gwyddonol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn huawdl ac yn siarad yn hyderus â'u ffrindiau ac oedolion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gymwys yn unol â'u hoedran a'u gallu. Maent yn defnyddio cliwiau lluniau yn dda i helpu cael ystyr testun, ac maent yn cymryd sylw o atalnodi yn llwyddiannus i gynorthwyo rhuglder wrth ddarllen. Mae darllenwyr mwy abl yn datrys geiriau anodd ac anghyfarwydd yn gyflym ac yn cywiro eu hunain wrth iddynt ddarllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir a gyda dealltwriaeth. Maent yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd yn systematig ac yn casglu eu hystyron o'u lle o fewn testun. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, gall llawer ohonynt lunio casgliadau wrth ddarllen ac maent yn defnyddio tystiolaeth o'r testun i gefnogi eu casgliadau, er enghraifft wrth drafod sut mae gwahanol gymeriadau yn eu llyfr darllen yn teimlo am yr afon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda i ymchwilio i destunau gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, gwneud nodiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau ysgrifennu datblygol yn dda ar draws meysydd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr sy'n gysylltiedig â llyfr darllen eu dosbarth. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n eang at ystod o ddibenion gan ddefnyddio gwahanol *genres*. Maent yn ysgrifennu mewn paragraffau gan ddefnyddio geirfa aeddfed a dychmygus i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae disgyblion mwy abl yn dewis geiriau'n ofalus i ychwanegu effaith ac ennyn ymateb emosiynol, er enghraifft wrth ysgrifennu am fywydau plant ym Mhrydain yn Oes Fictoria.

Mae medrau rhif y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis a defnyddio’r gweithrediad rhif addas i ddatrys problemau rhif yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur y pellter a deithiwyd gan geir i lawr ramp. Defnyddiant eu medrau trin data yn dda, er enghraifft wrth gofnodi arolwg traffig a chreu siartiau bar i ddangos y mathau o gerbydau sy’n mynd heibio giât yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o rif a gwerth lle. Defnyddiant ystod dda o ddulliau meddwl ac ysgrifenedig yn hyderus a chywir i ddatrys problemau. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn systematig ac yn esbonio’r strategaethau a ddefnyddiant yn glir. Maent yn cymhwyso’r medrau a ddysgwyd mewn gwersi mathemateg yn gymwys a chywir ar draws meysydd eraill y cwricwlwm i ddatrys ystod o broblemau bywyd go iawn, er enghraifft wrth ymchwilio i fywydau plant yn Oes Fictoria gan ddefnyddio gwybodaeth y cyfrifiad. Defnyddiant fedrau mesur a thrin data yn dda mewn pynciau eraill. Maent yn cofnodi eu canfyddiadau yn rhesymegol a systematig ac yn esbonio eu rhesymu yn eglur, er enghraifft wrth ymchwilio i’r modd y mae maint parasiwt yn effeithio ar gyflymder y cwympo.

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y Gymraeg a ddefnyddir gan staff, a defnyddiant ystod briodol o eirfa a phatrymau brawddeg sylfaenol i ateb cwestiynau syml, er enghraifft wrth drafod creaduriaid bach. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn deall, gofyn ac ateb cwestiynau yn llwyddiannus gan ddefnyddio brawddegau estynedig. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn cyfathrebu’n effeithiol wrth ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu am eu hoff lyfr. Mae disgyblion gallu uwch yn ysgrifennu’n gywir yn estynedig gan ddefnyddio amser y gorffennol, er enghraifft wrth greu cofnod dyddiadur am ymweliad â chanolfan siopa leol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sy’n cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da neu dda iawn mewn perthynas â’u targedau unigol. Mae disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn gwahanol. Mae disgyblion mwy abl yn cyflawni’n arbennig o dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, nid yw disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu i berfformio cystal â disgyblion eraill, yn enwedig ar y lefelau uwch. Fodd bynnag, mae’r bwlch mewn perfformiad yn mynd yn llai. Mae’r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn fwy ar y cyfan na’r bwlch mewn ysgolion tebyg, yn enwedig ar y lefel uwch mewn ysgrifennu.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant 5 disgwyliedig a’r deilliant 6 uwch wedi amrywio o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel 4 ddisgwyliedig dros yr un cyfnod wedi tueddu i osod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel 5 uwch, mae perfformiad ym mhob un o’r tri phwnc wedi gwella. Yn gyffredinol, mae perfformiad ym mhob un o’r tri phwnc wedi gwella. Yn gyffredinol, mae hyn wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd bwyta'n iach ac yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn aros yn heini ac iach. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o weithgareddau a gynigir iddynt. Enghraifft nodedig yw prosiect "Touching the Sky" sy'n cynnwys y disgyblion yn rhedeg 100 milltir dros gyfnod. Mae hyn wedi arwain at welliannau mesuradwy yn lefelau ffitrwydd disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt ofidiau neu bryderon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, o gwmpas yr ysgol ac yn yr ardaloedd y tu allan amser chwarae. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn dangos cwrteisi a pharch at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dangos mwynhad ac ymgysylltiad yn eu dysgu.

Mae gan ddisgyblion lais cryf yn y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg. Mae'r cyngor ysgol a grwpiau eraill llais y disgybl yn cynrychioli barn disgyblion eraill yn dda. Maent yn cyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy ddyfeisio a gweithredu prosiect chwarae yn yr awyr agored amser cinio, sydd wedi arwain at welliant mewn lefelau mwynhad ac effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â gwersi yn y prynhawn. Enghraifft nodedig yw gwaith y grŵp e-ddiogelwch wrth helpu disgyblion a rhieni i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn dangos empathi trwy godi arian ar gyfer gwahanol elusennau, ac yn arfer cyfrifoldeb trwy drefnu a hyrwyddo digwyddiadau. O ganlyniad, maent yn datblygu balchder yn eu cymuned ac yn ei chynrychioli'n frwdfrydig.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ac yn darparu cwricwlwm dychmygus sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion ar draws yr ystod oedran yn cyfrannu'n effeithiol at yr hyn y maent yn ei ddysgu, a sut. Mae darpariaeth yng Nghlwb Seren Bach yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn gwneud cynnydd da iawn. Mae ymglymiad gweithredol mewn prosiect creadigol, ar y cyd ag ysgolion eraill, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad bechgyn. Mae ystod amrywiol o ymweliadau addysgol a phobl sy'n ymweld â'r ysgol, ynghyd â gweithgareddau allgyrsiol a fynychir gan nifer dda, yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol wedi addasu ei rhaglen waith yn effeithiol i gynnwys gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae hyn

yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu a defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn llai datblygedig.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol a hanesyddol disgyblion o Gymru yn dda. Mae astudiaethau o agweddau economaidd a daearyddol ar yr ardal leol yn rhan dda o'r ddarpariaeth hon, er enghraifft astudio effaith Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy ar yr amgylchedd lleol.

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei sefydlu'n dda. Mae disgyblion yn ymwybodol o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd ac maent yn deall effaith gadarnhaol lleihau gwastraff. Mae athrawon yn defnyddio'r ardal awyr agored yn effeithiol gyda disgyblion o bob oedran, gan gynnwys yr ardd a'r Ysgol Goedwig, i hyrwyddo eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o fyd natur. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da trwy waith testun ac addysg grefyddol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau a'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae gwaith tîm effeithiol rhwng athrawon a staff cymorth yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, a'u bod yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae perthnasoedd gweithio rhwng pob un o'r staff a'r disgyblion yn dda iawn. Mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am y cwricwlwm yn dda i ddarparu ystod ddiddorol ac ysgogol o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn llawn. Maent yn rhannu amcanion dysgu clir ar gyfer eu gwersi i ddarparu diben clir i'r dysgu sy'n digwydd. Mae athrawon yn defnyddio symbyliadau'n dda ar ddechrau'r rhan fwyaf o wersi i ennyn diddordeb disgyblion o'r dechrau. Maent yn rhoi gweithgareddau yn eu trefn yn dda ac yn sicrhau bod dysgu'r disgyblion yn symud ei flaen ar gyflymdra priodol. Maent yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ac yn ymyrryd ar adegau priodol gan ddefnyddio holi medrus i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion. Pan fydd yr addysgu ar ei orau, mae athrawon yn darparu lefelau rhagorol o her i bob disgybl. Mae athrawon yn annog disgyblion i wneud penderfyniadau am y modd y maent yn mynd ati i ddysgu, ac o ganlyniad, maent yn datblygu'n llwyddiannus fel dysgwyr annibynnol.

Mae pob un o'r athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod gwersi trwy holi, hunanasesu ac arfarnu gwaith mewn perthynas â meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn eu helpu i ddeall yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae athrawon yn darparu targedau clir ar gyfer gwella i ddisgyblion. O ganlyniad, erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn arfarnu eu cynnydd ac yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella yn aeddfed.

Mae uwch arweinwyr ac athrawon dosbarth yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o ddata i olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Maent yn dadansoddi gwybodaeth am asesu yn dda i osod targedau heriol ar gyfer disgyblion. Maent yn sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a llai abl yn bodloni eu hanghenion unigol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion lleol eraill i asesu deilliannau disgyblion yn gywir. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plant. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl ac addysgiadol ac yn gosod targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu lefelau eithriadol o uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion a rhieni. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am fanteision ffordd iach o fyw, gan gynnwys ymarfer corff rheolaidd, yn rhagorol. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys y clwb 100 milltir a phrosiect "Touching the Sky". Caiff y mentrau hyn effaith fesuradwy ar les, lefelau ffitrwydd, hunan-barch a chanolbwyntio disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am y modd y mae gwahanol fwydydd yn cyfrannu at ffordd iach o fyw.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol i gefnogi lles disgyblion. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion a rhieni. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith hynod effeithiol y swyddog ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at y cynnydd da a da iawn a wna disgyblion sy'n agored i niwed wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae mentrau diweddar wedi ysgogi gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion. Mae'r holl oedolion yn hyrwyddo ymddygiad da yn gyson. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cynhwysol a gofalgar ar draws yr ysgol. Defnyddia'r staff eu gwybodaeth fanwl am yr ardal leol a'r teuluoedd y mae eu plant yn dod i'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae gweithredoedd dyddiol o gyd-addoli yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus iawn ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar y byd o'u cwmpas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae safon y ddarpariaeth yng Nghlwb arloesol Seren Bach yn uchel iawn, sy'n galluogi disgyblion yn y lleoliadau hyn i wneud cynnydd da neu dda iawn. Mae athrawon eraill yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddysgu am y ddarpariaeth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y dosbarth anogaeth. Mae'r ysgol yn rheoli a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn effeithiol fel bod pob aelod o staff yn glir ynglŷn â'r cymorth sydd ei angen ar y disgyblion. Mae staff yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol iawn i gynllunio gweithgareddau dysgu o ansawdd da i fodloni eu hanghenion unigol. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth yn defnyddio ystod eang o raglenni ymyrraeth llwyddiannus. Mae staff cymorth yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y rhaglenni hyn. Caiff rhieni ddiweddariadau rheolaidd ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn adolygu cynnydd eu plant.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion yn dda. Ceir ethos tawel a phwrpasol, sy'n cynnwys ac yn gwerthfawrogi'r holl ddisgyblion a staff. Mae hyn yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda. Mae staff yn trin yr holl ddisgyblion yn deg ac yn rhoi'r un cyfle iddynt elwa ar holl feysydd y cwricwlwm. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu cefndiroedd amrywiol y disgyblion ac yn y gymdeithas yn gyffredinol.

Mae ansawdd adeilad a thir yr ysgol yn dda ac yn helpu i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Cânt eu cynnal yn dda, ac maent yn ddiogel a saff. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r holl le sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth awyr agored i wella profiad disgyblion o bob oedran. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol ac yn cefnogi addysgu a dysgu yn dda. Mae ystafelloedd dosbarth a choridorau yn olau a deniadol, gydag arddangosfeydd cyson dda sy'n dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn cefnogi dysgu yn dda. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnwys offer da ac adnoddau o ansawdd da sy'n gweddu i anghenion disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol. Mae'n benderfynol y dylai'r holl ddisgyblion gael yr un cyfle i elwa ar brofiadau o ansawdd da sy'n gwella eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae arweinwyr ar bob lefel yn hyrwyddo ethos cynhwysol a gofalgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu hymglymiad yn bwysig. Mae'r pennaeth yn datblygu medrau arwain y staff yn dda. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac atebolrwydd ymhlith staff am ansawdd darpariaeth yr ysgol. O ganlyniad, mae staff yn datblygu'r medrau a'r hyder angenrheidiol i fwrw ymlaen â blaenoriaethau cytûn ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn gyfrifol am yr ardal ddysgu lwyddiannus iawn yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae cyfarfodydd staff yn bwrpasol ac yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Ceir trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad yr holl athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae cyfleoedd hyfforddi perthnasol yn cysylltu â thargedau staff ac yn galluogi staff i gyfrannu'n effeithiol at wella'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Maent wedi gwella eu dealltwriaeth o'r modd y mae'r ysgol yn gweithio trwy gynnal ymweliadau rheolaidd. Mae adroddiadau manwl y pennaeth yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth eang o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae eu gallu i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn datblygu'n dda.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd nodedig wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglenni arloesol sy'n llwyddiannus o ran gwella lefelau ffitrwydd disgyblion a lleihau achosion o ddiffyg presenoldeb parhaus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig a chadarn ar gyfer asesu ei pherfformiad ei hun. Mae llawer o aelodau o staff yn cymryd rhan yn y dadansoddiad manwl o ystod eang o ddata cyrhaeddiad ac yn cyfrannu tystiolaeth uniongyrchol, gywir at y broses hunanarfarnu. Maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn arfarnu ansawdd yr addysgu a safonau gwaith yn llyfrau disgyblion yn drylwyr. Mae'r ysgol yn talu sylw i safbwyntiau disgyblion a'u rhieni hefyd. Mae'r defnydd llwyddiannus o'r cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu ymgysylltiad rhieni â'r broses. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor yr ymgynghorydd her, er enghraifft o ran gwella effeithiolrwydd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae ystyried y wybodaeth gynhwysfawr hon yn rhoi darlun cywir i arweinwyr a staff ar bob lefel o gryfderau'r ysgol a'r meysydd lle mae gwelliannau'n bosibl.

Mae canfyddiadau hunanarfarnu yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys cynllun gwella'r ysgol. Mae gan y cynllun nifer hylaw o flaenoriaethau priodol a fydd, ym marn arweinwyr, yn cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'n gosod targedau mesuradwy ac yn nodi'n addas y personél sy'n gyfrifol, graddfeydd amser, costau a threfniadau monitro. Mae cynlluniau blaenorol wedi llwyddo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a chodi safonau, er enghraifft mewn Cymraeg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n cyfoethogi ac yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda rhieni. Caiff y bartneriaeth gefnogol hon effaith gadarnhaol iawn ar gyfranogiad disgyblion a'u mwynhad o ddysgu, er enghraifft o ran gwella presenoldeb yn yr ysgol ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol rhagorol i deuluoedd sy'n agored i niwed trwy raglenni cymorth anogaeth arloesol. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd hynod effeithiol sy'n cynorthwyo â theuluoedd sy'n agored i niwed yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymgysylltu â theuluoedd a lles. Trwy fentrau o'r fath, fel rhaglenni dysgu teuluol, mae rhwystrau rhag ymgysylltu â rhieni yn lleihau, ac o ganlyniad, mae dealltwriaeth a hyder rhieni wrth helpu eu plant gartref yn gwella. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi barn rhieni'n fawr ac yn eu hannog i fynegi eu barn trwy holiaduron rheolaidd a'i pholisi 'drws agored'. O ganlyniad, ymestynnwyd darpariaeth gweithgareddau'r Ysgol Goedwig ar draws yr ystod oedran.

Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cryf iawn â'r gymuned leol. Mae'n gweithio'n effeithiol iawn ochr yn ochr â nifer o sefydliadau cymunedol a mannau addoli. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae'n cyfoethogi eu profiadau. Mae cyfranogiad yr ysgol fel ysgol greadigol arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r tîm arwain i wella profiad disgyblion. Fel rhan o brosiect i annog llythrennedd bechgyn, bu staff yn gweithio gyda'r gymdeithas cychwyr leol i adeiladu llong ar ffurf draig a'i hwylio ar Afon Ddyfrdwy gyda mwg o ffagl yn byrlymu o ben blaen y llong. Fe wnaeth hyn ysbrydoli darllen ac ysgrifennu disgyblion yn sylweddol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn â darpariaeth leol Dechrau'n Deg a'r lleoliad cyn-ysgol sy'n rhannu'r un safle. Mae'r ysgol yn elwa ar lawer o gyfleoedd ar gyfer cynllunio a darparu adnoddau ar y cyd. Gwahoddir disgyblion cyn-ysgol yn rheolaidd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a chystadlaethau yn yr ysgol. Mae staff yn cyflwyno rhaglenni parodrwydd i'r ysgol o ansawdd uchel sy'n helpu rhieni i sylweddoli pwysigrwydd chwarae a darllen i helpu i baratoi eu plant ar gyfer yr ysgol. Mae'r ymyrraeth gynnar hon yn gwella pontio disgyblion i'r dosbarth meithrin yn sylweddol ac yn helpu i sicrhau deilliannau cadarnhaol ym mhresenoldeb, cyflawniad ac ymddygiad disgyblion. Ceir trefniadau cadarn ag ysgolion uwchradd lleol i baratoi disgyblion yn briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae athrawon yn cydweithredu'n effeithiol ac yn cymryd rhan arweiniol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion lleol ac ysgolion eraill ledled Cymru ar lawer o fentrau. Maent yn asesu effaith camau gweithredu blaenorol ar ddeilliannau disgyblion yn rheolaidd. Mae athrawon wedi bod ar ymweliadau targedig i ysgolion eraill i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r partneriaethau hyn wedi codi safonau ym medrau Cymraeg disgyblion, gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a chynyddu effeithiolrwydd adborth athrawon i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r coleg lleol, er enghraifft wrth fesur effaith prosiect hynod lwyddiannus "Touching the Sky" ar ffitrwydd a lles disgyblion. Mae aelodau staff wedi rhannu arfer dda ag ysgolion eraill ynglŷn â darpariaeth arloesol Clwb Seren Bach a'r rhaglenni hynod effeithiol ar gyfer gwella ffitrwydd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol. Mae'n elwa ar y cyfraniadau cadarnhaol at addysg a lles disgyblion gan y gwasanaethau cymorth dysgu ac ymddygiad, cymorth Saesneg fel iaith ychwanegol a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff ac mae'n eu defnyddio'n effeithlon i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u profiad a bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Ceir trefniadau effeithiol i hyfforddi staff a datblygu eu medrau. Mae'r ysgol yn rheoli trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithlon. O ganlyniad, mae athrawon a staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth glir iawn o'u rôl o ran gwella deilliannau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb a'i grantiau yn dda. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn blaenoriaethu a monitro gwariant yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn ariannu blaenoriaethau gwella yn ddigonol. Ceir digon o adnoddau o ansawdd da i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae cronfeydd wrth gefn o fewn terfynau argymelledig.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion trwy ystod o raglenni ymyrraeth targedig i godi safonau llythrennedd a rhifedd a gwella cyfraddau presenoldeb. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn narpariaeth anogaeth hynod effeithiol Seren Bach.

O ganlyniad i'r cynnydd da a gyflawnir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn perthynas â'u mannau cychwyn cymharol isel ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6642052 - Ysgol Bryn Deva**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 275 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 28.6 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 50 | 32 | 33 | 35 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 76.0 | 62.5 | 63.6 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 50 | 32 | 33 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.0 | 65.6 | 84.8 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.0 | 9.4 | 24.2 | 14.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 50 | 32 | 33 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.0 | 71.9 | 63.6 | 88.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.0 | 15.6 | 18.2 | 17.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 50 | 32 | 33 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 84.4 | 100.0 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 24.0 | 25.0 | 36.4 | 34.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6642052 - Ysgol Bryn Deva**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 275 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 28.6 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 38 | 29 | 35 | 38 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 78.9 | 86.2 | 82.9 | 71.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 29 | 35 | 38 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.6 | 86.2 | 82.9 | 78.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 21.1 | 27.6 | 31.4 | 36.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 29 | 35 | 38 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.2 | 89.7 | 85.7 | 81.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.3 | 31.0 | 34.3 | 34.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 38 | 29 | 35 | 38 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.8 | 89.7 | 88.6 | 81.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 21.1 | 34.5 | 31.4 | 36.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 99 | 99<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 94<br>98%<br>92% | 2<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 96<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 100<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 98<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 93 | 89<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 100<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 97<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 97 | 88<br>91%<br>91% | 9<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 88<br>88%<br>95% | 12<br>12%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 78<br>84%<br>77% | 15<br>16%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 96<br>97%<br>84% | 3<br>3%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 16 | 13 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 43% | 0% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 18 | 11 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 37% | 3% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 19 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 16 | 13 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 43% | 0% | 3% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 27 | 8 | 17 | 1 | 1 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 30% | 63% | 4% | 4% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 28 | 15 | 13 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 27 | 16 | 9 | 2 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 59% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 12 | 10 | 4 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 37% | 15% | 4% | | |
| | | 50% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 14 | 12 | 0 | 1 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 52% | 44% | 0% | 4% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 20 | 7 | 0 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 30 | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 30 | 14 | 14 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 47% | 47% | 7% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 14 | 13 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 47% | 43% | 10% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 29 | 16<br>55% | 12<br>41% | 0<br>0% | 1<br>3% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 14<br>54% | 9<br>35% | 2<br>8% | 1<br>4% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 28 | 15<br>54% | 13<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 26 | 10<br>38% | 13<br>50% | 2<br>8% | 1<br>4% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 29 | 13<br>45% | 10<br>34% | 6<br>21% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 27 | 16<br>59% | 9<br>33% | 1<br>4% | 1<br>4% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Christopher Ian Dolby | Arolygydd Tîm |
| Susan Elizabeth Roden | Arolygydd Lleyg |
| Alexine Bartholomew | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tamasine Croston | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.